



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pwyllgor Archwilio**

**The National Assembly for Wales
Audit Committee**

**Gwaredu Ysbyty Canolbarth Cymru
The Disposal of the Mid Wales Hospital**

**Cwestiynau 1-149
Questions 1-149**

**Dydd Iau 24 Hydref 2002
Thursday 24 October 2002**

Aelodau o'r Cynulliad yn bresennol: Dafydd Wigley (Cadeirydd), Eleanor Burnham, Alun Cairns, Janet Davies, Jocelyn Davies, Janice Gregory, Alison Halford, Ann Jones, Val Lloyd.

Swyddogion yn bresennol: Syr John Bourn, Archwilydd Cyffredinol Cymru; Lew Hughes, Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru; Ceri Thomas, Swyddog Cydymffurfio Cynulliad Cenedlaethol Cymru; Mike Usher, Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru.

Tystion: Ann Lloyd, Cyfarwyddwr, Cyfarwyddiaeth GIG Cynulliad Cenedlaethol Cymru; Neil Jones, Prif Syrffwr Ystadau, Is-adran Ystadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru; Nigel Towns, Prif Weithredwr Dros Dro Awdurdod Iechyd Dyfed Powys.

Assembly Members present: Dafydd Wigley (Chair), Eleanor Burnham, Alun Cairns, Janet Davies, Jocelyn Davies, Janice Gregory, Alison Halford, Ann Jones, Val Lloyd.

Officials present: Sir John Bourn, Auditor General for Wales; Lew Hughes, National Audit Office Wales; Ceri Thomas, National Assembly for Wales Compliance Officer; Mike Usher, National Audit Office Wales.

Witnesses: Ann Lloyd, Director, NHS Directorate, National Assembly for Wales; Neil Jones, Principal Estates Surveyor, Estates Division, National Assembly for Wales; Nigel Towns, Acting Chief Executive, Dyfed Powys Health Authority.

*Dechreuodd y sesiwn cymryd tystiolaeth am 2.05 p.m.
The evidence-taking session started at 2.05 p.m.*

[1] **Dafydd Wigley:** Byddwn yn derbyn tystiolaeth ar waredu Ysbyty Canolbarth Cymru yn ystod y sesiwn hwn. Mae hyn yn deillio o geisiadau gan aelodau o'r cyhoedd. Bydd gennych gopi o'r adroddiad, 'Gwaredu Ysbyty Canolbarth Cymru', a baratowyd gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru ac a gyhoeddwyd ar 16 Hydref. Croesawaf ein tystion gan ofyn iddynt gyflwyno eu hunain i'r Pwyllgor.

Ms Lloyd: I am Ann Lloyd, the director of NHS Wales.

Mr Jones: I am Neil Jones from the Estates Division at the National Assembly for Wales.

Mr Towns: I am Nigel Towns, acting chief executive of Dyfed Powys Health Authority.

[2] **Dafydd Wigley:** Yr wyf yn ddiolchgar iawn ichi am ddod ger ein bron i ateb y cwestiynau sydd gennym. Gofynnaf y cwestiwn cyntaf i Ann Lloyd, gan gyfeirio at baragraffau 2.14 i 2.17 yn yr adroddiad. A oes gan y cyrff hynny a ddaw o fewn y

[1] **Dafydd Wigley:** We will be taking evidence on the disposal of the Mid Wales Hospital during this session. This arises from requests from members of the public. You will have a copy of the report, 'The Disposal of the Mid Wales Hospital', prepared by the National Audit Office Wales on behalf of the Auditor General for Wales, which was published on 16 October. I welcome our witnesses and ask them to introduce themselves to the Committee.

Ms Lloyd: Fi yw Ann Lloyd, cyfarwyddwr GIG Cymru.

Mr Jones: Fi yw Neil Jones o Is-adran Ystadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mr Towns: Fi yw Nigel Towns, prif weithredwr dros dro Awdurdod Iechyd Dyfed Powys.

[2] **Dafydd Wigley:** I am very grateful to you for appearing before us to answer our questions. I will ask the first question to Ann Lloyd, referring to paragraphs 2.14 to 2.17 in the report. Do those bodies that come within the national health service have clear

gwasanaeth iechyd gwladol arweiniad clir i'w ddilyn ar gyfer gwarediadau?

Ms Lloyd: At the moment, the situation that is outlined in those paragraphs still stands. A Welsh health circular is just about to be issued that brings together all the latest guidance available to the NHS in Wales to ensure that there is a consistency of approach. As you will be aware from reading the Auditor General's helpful report, NHS trusts are already bound by *Estatecode*, but that was not applied consistently to the residual estate of health authorities. I expect that we shall be able to issue the complete guidance in the next six weeks.

[3] **Janet Davies:** I am coming in early with a question that I realise has policy implications, which we cannot look at. I fully accept that. However, it also has financial and social implications. As I understand it, the health service is bound by Treasury requirements to get the best price for any property that is sold. It seems to me that, if that is a requirement, it is a very formal requirement and demands absolute, down-the-line, strict adherence to recorded and formal procedures—which I am sure we will go into later on—including formal tendering. However, there is also what I would call, perhaps, some moral issue of benefit to the community arising out of the disposal of properties. Of course, these two clash pretty fundamentally. I accept the difficulties for Dyfed Powys Health Authority, in particular, on this. However, I have to ask whether there is a case for looking at the issue of community benefit. It is, perhaps, something that this Committee might possibly wish to think about recommending to higher authorities at the end, when we are producing our own report. I wonder, Ms Lloyd, if you would like to comment on that.

Ms Lloyd: You will be aware that, under the Government of Wales Act 1998 and since January 2000, the whole policy of sustainable development applies to the NHS as well. From that time, we have had to consider the benefits of our actions on the whole of the communities that we serve within the specific

guidance to follow on disposals?

Ms Lloyd: Ar hyn o bryd, mae'r sefyllfa a amlinellir yn y paragraffau hynny yn dal yn wir. Mae cylchlythyr iechyd Cymru ar fin cael ei gyhoeddi sy'n dwyn ynghyd yr holl ganllawiau diweddaraf i'r GIG yng Nghymru i sicrhau bod dulliau gweithredu'n gyson. Fel y byddwch yn ymwybodol o ddarllen adroddiad defnyddiol yr Archwilydd Cyffredinol, mae ymddiriedolaethau GIG eisoes wedi'u rhwymo gan *Estatecode*, ond ni weithredwyd hwnnw'n gyson i ystad weddilliol awdurdodau iechyd. Yr wyf yn disgwyl y byddwn yn gallu cyhoeddi'r canllawiau cyflawn yn y chwe wythnos nesaf.

[3] **Janet Davies:** Yr wyf am ofyn cwestiwn yn gynnar yn y sesiwn, a gwn fod ganddo oblygiadau polisi na allwn eu hystyried. Yr wyf yn derbyn hynny'n llwyr. Fodd bynnag, mae ganddo oblygiadau ariannol a chymdeithasol hefyd. Fel y deallaf, mae'r gwasanaeth iechyd wedi'i rhwymo gan ofynion y Trysorlys i sicrhau'r pris gorau am unrhyw eiddo a werthir. Os mai dyna'r gofyniad, mae'n ymddangos i mi ei fod yn ofyniad ffurfiol iawn ac yn gofyn am ymlyniad llwyr, manwl gywir, caeth i weithdrefnau ffurfiol a chofnodedig—y byddwn yn eu trafod yn ddiweddarach mae'n siŵr—gan gynnwys tendro ffurfiol. Fodd bynnag, mae yna hefyd yr hyn y byddwn i'n ei ddisgrifio, efallai, fel mater moesol budd i'r gymuned hefyd yn codi o waredu eiddo. Wrth gwrs, mae'r ddau beth yn gwrthdaro'n sylfaenol. Yr wyf yn derbyn bod hyn yn anodd i Awdurdod Iechyd Dyfed Powys yn benodol. Fodd bynnag, mae'n rhaid imi ofyn a ddylid ystyried mater budd cymunedol. Efallai y gallai'r Pwyllgor hwn ystyried ei argymhell i awdurdodau uwch ar y diwedd, pan fyddwn ni'n llunio ein hadroddiad ein hunain. Oes gennych chi sylwadau ar hyn tybed, Ms Lloyd?

Ms Lloyd: Byddwch yn ymwybodol, o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, ac ers Ionawr 2000, fod yr holl bolisi o ddatblygu cynaliadwy yn berthnasol i'r GIG hefyd. Ers hynny, yr ydym wedi gorfod ystyried lles ein holl waith i'r holl gymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu mewn lleoliadau penodol. Felly,

locations. So it is one of the tests that have to be applied and will be included within the guidance that is issued. Some long time ago, back in 1984, there was also a requirement that consideration should be given in regard to disposals of the impact on the community but that guidance was repealed in 1985. This particular transaction has fallen within that barren period. However, it is certainly something that is picked up in the guidance.

[4] **Janet Davies:** Right. So you are actually confirming that any future sales of property will have the sustainable development issue fully considered?

Ms Lloyd: Yes.

[5] **Alison Halford:** First of all, was Mr Jones around in 1997 to 1999 when all this happened?

Mr Jones: Yes.

[6] **Alison Halford:** You are the one person that we can lay hands on—feel your collar sort of thing. So, you were using the 1984 national health service handbook. I have a note here that slightly contradicts what Janet Davies is saying. It says that, where the district health authority decides that there is no further NHS use for land or buildings, it should consider how the disposal of the property will give the greatest benefit to its area. Well, that does not always mean economic benefit, does it?

[7] **Dafydd Wigley:** I think that Ann Lloyd referred to a change that took place in 1985, that overrode the 1984 guidance. Is that the case, Mr Jones?

Mr Jones: I understand that that is true, yes.

[8] **Alison Halford:** So what happened? The 1984 guidance went to 1995, and now it has changed again, in effect?

[9] **Dafydd Wigley:** No. It went to 1985; it only lasted for a year. May I take this on? It is an important consideration. Are there any circumstances in which it is permissible to

mae'n un o'r profion sy'n rhaid ei weithredu a bydd yn cael ei gynnwys yn y canllawiau a gyhoeddir. Beth amser yn ôl, yn 1984, yr oedd hefyd ofyniad i ystyried effaith gwaredu ar y gymuned ond diddymwyd y cyfarwyddyd hwnnw yn 1985. Mae'r gwerthiant hwn yn perthyn i'r cyfnod llwm hwnnw. Fodd bynnag, mae'r canllawiau yn sicr yn rhoi sylw pendant i hyn.

[4] **Janet Davies:** O'r gorau. Felly, yr ydych yn cadarnhau y bydd datblygu cynaliadwy yn cael ei ystyried yn llawn wrth werthu eiddo yn y dyfodol?

Ms Lloyd: Ydwyf.

[5] **Alison Halford:** Yn gyntaf oll, a oedd Mr Jones o gwmpas yn 1997 i 1999 pan ddigwyddodd hyn oll?

Mr Jones: Oeddw'n.

[6] **Alison Halford:** Chi yw'r unig un y gallwn fynd i'r afael ag ef, fel petai. Felly, yr oeddech yn defnyddio llawlyfr 1984 y gwasanaeth iechyd gwladol. Mae gennyf nodyn yma sy'n gwrth-ddweud i raddau yr hyn y mae Janet Davies yn ei ddweud. Mae'n dweud y dylai awdurdod iechyd dosbarth ystyried sut y bydd gwaredu eiddo yn rhoi'r budd mwyaf i'r ardal pan fydd yn penderfynu nad yw tir neu adeiladau o ddefnydd pellach i'r GIG. Wel, nid yw hynny bob amser yn golygu budd economaidd, nac ydyw?

[7] **Dafydd Wigley:** Yr wyf yn meddwl bod Ann Lloyd yn cyfeirio at newid a ddigwyddodd yn 1985, a ddisodlodd gyfarwyddyd 1984. A yw hynny'n gywir, Mr Jones?

Mr Jones: Yr wyf yn deall bod hynny'n wir, ydy.

[8] **Alison Halford:** Felly beth ddigwyddodd? Parhaodd cyfarwyddyd 1984 tan 1995, ac yn awr mae wedi newid eto, i bob pwrpas?

[9] **Dafydd Wigley:** Na. Parhaodd tan 1985; dim ond am flwyddyn y bu mewn grym. A gaf i barhau â hyn? Mae'n ystyriaeth bwysig. A oes unrhyw amgylchiadau lle y caniateir

accept a lower price because the offer may be contributing to the wellbeing of the community, or to the needs of the local community, or towards other public policies which would not be achieved if just the highest price was accepted? Are there any mechanisms up to 2000—the period under consideration here—that could have been considered in making a decision on this property?

Mr Jones: My understanding is that, in order to do that, it would have to come before the Assembly for the Assembly to give its approval to a sale at less than the best price.

[10] **Dafydd Wigley:** Or before the Secretary of State for Wales up to July 1999, when the Assembly took over his powers?

Mr Jones: Yes.

[11] **Dafydd Wigley:** It was on that basis that you were acting?

Ms Lloyd: Yes.

[12] **Dafydd Wigley:** May I therefore ask whether the situation today, as referred to by Ann Lloyd a moment ago, is somewhat different? Is it the situation that the guidelines under which Welsh Health Estates is working are clearer today and that there would not be any room for the uncertainty that may have existed in the 1990s to be experienced in any disposals today?

Ms Lloyd: As I said, Chair, the formal circular will be issued in approximately the next six weeks. Certainly, it has to take into consideration the issue of the Welsh Assembly Government's policy on sustainable development since January 2000. This would be one of the considerations that would have to be given. The trusts were bound by the *Estatecode*, and all management of the disposal of their residual property is now handled by Welsh Health Estates, which has very clear guidance and processes in terms of the way in which it conducts its business.

[13] **Dafydd Wigley:** Would you say that the guidance and processes that now exist—

derbyn pris is oherwydd bod y cynnig o bosibl yn cyfrannu at les y gymuned, neu at anghenion y gymuned leol, neu at bolisiau cyhoeddus eraill na fyddai'n cael eu cyflawni pe derbynnid y pris uchaf? A oes unrhyw fecanweithiau hyd at 2000—y cyfnod sy'n cael ei ystyried yma—y gellid bod wedi'u hystyried wrth benderfynu ar yr eiddo hwn?

Mr Jones: Er mwyn gwneud hynny, o'r hyn a ddeallaf, byddai'n rhaid iddo ddod gerbron y Cynulliad i'r Cynulliad roi sêl ei fendith i werthu am bris is na'r pris gorau.

[10] **Dafydd Wigley:** Neu gerbron Ysgrifennydd Gwladol Cymru hyd Orffennaf 1999, pan drosglwyddyd ei bwerau i'r Cynulliad?

Mr Jones: Ie.

[11] **Dafydd Wigley:** Ar y sail honno yr oeddech chi'n gweithredu?

Ms Lloyd: Ie.

[12] **Dafydd Wigley:** A gaf fi, felly, ofyn a yw'r sefyllfa bresennol, y soniodd Ann Lloyd amdani ychydig yn ôl, rywfaint yn wahanol? Ai'r sefyllfa yw bod y canllawiau y mae Ystadau Iechyd Cymru yn eu dilyn yn gliriach heddiw ac na fyddai unrhyw gyfle am yr ansicrwydd a allai fod wedi bodoli yn yr 1990au wrth waredu eiddo heddiw?

Ms Lloyd: Fel y dywedais, Gadeirydd, bydd y cylchlythyr ffurfiol yn cael ei gyhoeddi o fewn y chwe wythnos nesaf, fwy neu lai. Yn sicr, mae'n rhaid iddo ystyried polisi datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru ers Ionawr 2000. Dyma un o'r ystyriaethau y byddai'n rhaid eu gwneud. Yr oedd yr ymddiriedolaethau wedi'u rhwymo gan yr *Estatecode*, ac Ystadau Iechyd Cymru sydd bellach yn rheoli'r holl broses o waredu eu heiddo gweddilliol, ac mae gan Ystadau Iechyd Cymru ganllawiau a phrosesau clir iawn ynglŷn â'r ffordd y mae'n cynnal ei fusnes.

[13] **Dafydd Wigley:** A ydych o'r farn y bydd y canllawiau a'r prosesau sy'n bodoli

whatever may happen over the next six weeks to develop these—will lead to a position where there is less risk of accusations being made of decisions being taken on bases that are not as acceptable, as appears to be the case in this instance?

Ms Lloyd: Since disposals have been managed by Welsh Health Estates, that gives us, and me in particular, a more powerful scrutiny role. Therefore, I would feel in a better position to be able to judge whether or not all due process had been undertaken in disposing of a property than I think anybody in my position was in 1999.

[14] **Dafydd Wigley:** In other words, you are identifying that the situation in 1999 was not totally satisfactory?

Ms Lloyd: Well, as we have public scrutiny of this, and some very helpful recommendations about how we tighten our procedures, then it was not as perfect as we intend it to be.

[15] **Dafydd Wigley:** I am grateful.

[16] **Ann Jones:** You have mentioned having this new scrutiny role, or more of a scrutiny role. What other actions will the NHS department and Welsh Health Estates take in order to ensure that public accountability requirements are made quite clear to any private sector advisers?

Ms Lloyd: Well, there are a number of things that we can do, and the recommendations of the National Audit Office are very helpful in this respect. First, we have to ensure that the guidance is absolutely clear, so that all NHS bodies disposing of property understand explicitly what they have to do in order to effectively dispose of their property. There are a whole host of issues about making quite clear the requirement to keep scrupulous records, to test the market effectively, to ensure that valuation is up to date and is practical and can be implemented, and that you start to market the property at the right level without undue aspirations. Also, it is important that my department—Mr Jones is part of my department—and Welsh Health Estates work very closely together to ensure

erbyn hyn—beth bynnag a all ddigwydd dros y chwe wythnos nesaf i ddatblygu'r rhain—yn arwain at sefyllfa lle mae llai o berygl o gyhuddiadau'n cael eu gwneud bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar seiliau nad ydynt yn dderbyniol, fel yr ymddengys sy'n wir yn yr achos hwn?

Ms Lloyd: Ers i Ystadau Iechyd Cymru ddechrau rheoli'r gwaith o waredu eiddo, mae gennym ni, a fi yn benodol, swyddogaeth archwilio fwy pwerus. Felly, byddwn i'n teimlo fy mod mewn gwell sefyllfa na rhywun yn fy sefyllfa i yn 1999, fe gredaf, i allu barnu a ddilynwyd y drefn briodol ai peidio wrth waredu eiddo.

[14] **Dafydd Wigley:** Mewn geiriau eraill, yr ydych yn dweud nad oedd y sefyllfa'n gwbl foddhaol yn 1999?

Ms Lloyd: Wel, gan fod archwiliad cyhoeddus o hyn, a rhai argymhellion defnyddiol iawn ar sut i dynhau ein gweithdrefnau, nid oedd pethau mor berffaith ag yr oeddem ni wedi'i fwriadu.

[15] **Dafydd Wigley:** Diolch yn fawr.

[16] **Ann Jones:** Yr ydych wedi sôn am gael y swyddogaeth archwilio newydd hon, neu fwy o swyddogaeth archwilio. Pa gamau eraill y bydd adran y GIG ac Ystadau Iechyd Cymru yn eu cymryd er mwyn sicrhau bod gofynion atebolrwydd cyhoeddus yn cael eu hegluro i ymgynghorwyr o'r sector preifat?

Ms Lloyd: Wel, mae nifer o bethau y gallwn eu gwneud, ac mae argymhellion y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ddefnyddiol iawn yn hyn o beth. Yn gyntaf, mae'n rhaid i ni sicrhau bod y canllawiau yn gwbl glir, fel bod pob corff GIG sy'n gwaredu eiddo yn deall yn glir beth sy'n rhaid iddynt ei wneud er mwyn gwaredu eu heiddo'n effeithiol. Mae llu o faterion ynghylch nodi'n glir y gofyniad i gadw cofnodion manwl, profi'r farchnad yn effeithiol, sicrhau bod y prisiad yn gyfredol, yn ymarferol a bod modd ei weithredu, a'ch bod yn dechrau marchnata'r eiddo ar y lefel gywir heb ddyheadau gormodol. Hefyd, mae'n bwysig bod fy adran i—mae Mr Jones yn aelod o'r adran—ac Ystadau Iechyd Cymru yn cydweithio'n glòs i sicrhau bod yr holl weithdrefnau wedi'u

that all the procedures are properly outlined and that all partners understand what their role is, so that we can be quite clear that the codes of conduct and governance under which NHS organisations in Wales have to operate can be effectively operated.

[17] **Ann Jones:** Many thanks. How do you see that fitting in with chartered surveyors and the private companies and bodies that you will have to look towards? Do you feel that perhaps the less rigorous opening procedure adopted by the agent in May 1999, in this case, indicates that private sector professional advisers may not be as familiar with public sector accountability requirements as we expect public bodies to be? Do you think that there is a problem there?

Ms Lloyd: Well, I cannot answer for the whole of the private professional practice, but certainly we will be making sure that the organisations that are disposing of their property give very, very clear guidance to the private contractors about what they expect from them. In particular, in terms of the whole tendering process and the opening of tenders, it is routine in the NHS that tenders are opened as described within this document in terms of the first time that tenders were sought. We would not expect any professionals hired by us to undertake responsibilities on our behalf not to operate those procedures, and I think that it has been helpful actually that it has been highlighted here, because we can reinforce that guidance.

[18] **Ann Jones:** Okay, thanks.

[19] **Dafydd Wigley:** Were you surprised that that process was not followed the second time around?

Ms Lloyd: I have not known a process not to be followed in that way before.

[20] **Dafydd Wigley:** That is unique in your experience?

Ms Lloyd: Well, I fortunately have always worked in the NHS, and we have always followed a very tight procedure. Certainly, from the point of view of a chief executive within the NHS, one would have expected the

hamlinellu'n briodol a bod yr holl bartneriaid yn deall beth yw eu swyddogaeth, fel y gallwn fod yn glir bod modd gweithredu'n effeithiol y codau ymddygiad a llywodraethu y mae'n rhaid i sefydliadau GIG yn Nghymru lynu atynt.

[17] **Ann Jones:** Diolch yn fawr. Sut ydych chi'n gweld hynny'n gweithio gyda thirfesurwyr siartredig a'r cwmnïau a'r cyrff preifat y bydd yn rhaid i chi droi atynt? A ydych yn teimlo bod y weithdrefn agoriadol lai manwl o bosibl a fabwysiadwyd gan y gwerthwr ym Mai 1999, yn yr achos hwn, yn nodi nad yw ymgynghorwyr proffesiynol y sector preifat mor gyfarwydd, o bosibl, â gofynion atebolrwydd y sector cyhoeddus ag y disgwyliwn i gyrff cyhoeddus fod? A ydych chi'n credu bod problem o ran hynny?

Ms Lloyd: Wel, ni allaf ateb dros yr holl sector proffesiynol preifat, ond yn bendant byddwn yn sicrhau bod y sefydliadau sy'n gwaredu eu heiddo yn rhoi canllawiau clir iawn, iawn i gontractwyr preifat ar yr hyn sy'n ddisgwyliedig ganddynt. Yn benodol, o ran y broses dendro gyfan ac agor cynigion tendr, trefn arferol y GIG yw agor cynigion tendro fel y disgrifir yn y ddogfen hon o ran y tro cyntaf y gwahoddwyd tendrau. Ni fyddem yn disgwyl i unrhyw weithwyr proffesiynol a gyflogwyd gennym i gyflawni cyfrifoldebau ar ein rhan i beidio gweithredu'r gweithdrefnau hynny, ac yr wyf yn credu bod tynnu sylw at hyn yma wedi bod yn ddefnyddiol, gan y gallwn gadarnhau'r canllawiau hynny.

[18] **Ann Jones:** Iawn, diolch.

[19] **Dafydd Wigley:** A gawsoch chi'ch synnu na ddilynwyd y broses yr ail waith?

Ms Lloyd: Ni chefais brofiad tebyg o beidio dilyn proses.

[20] **Dafydd Wigley:** Mae hynny'n unigryw yn eich profiad chi?

Ms Lloyd: Wel, yn ffodus yr wyf wedi gweithio yn y GIG ar hyd fy oes, ac yr ydym bob amser wedi dilyn gweithdrefn dyn iawn. Yn bendant, o safbwynt prif weithredwr yn y GIG, byddai rhywun yn disgwyl i'r

private contractors to operate to our given standards.

[21] **Janice Gregory:** I will address my question to Nigel Towns, if I may, Mr Towns. I refer to paragraph 2.21 of the report. The report suggests that everyone followed the appropriate legal and professional advice and yet, if you read on further and look at the disparity between the figures, it would appear that a formal valuation for disposal purposes was not sought. Are you able to tell us what were the reasons for that?

Mr Towns: As you are probably aware, Chair, the person who dealt with this is no longer employed by us and has actually retired. We have been through the records and I think that a valuation was taken, in the outset, from a district valuer. I think, if the property had been on the market for a considerable amount of time, you would have been testing the market to make sure the valuation had not changed. We were in touch, obviously, with the agents who were appointed, who are expected to get the best price for us—in fact, it is in their interest to do so because they are paid commission on the sale price—and our organisation was also in touch with Welsh Health Estates. So, I think in this instance—and I think that is borne out by the eventual sale price and the offers that we had—that the valuation, which was around about the £350,000 mark, was current and valid. I think, if you were going for a long period of time, that you would keep testing the market. The other thing to bear in mind is that the site is sort of unattractive; I think it has been described as commercially unattractive. It is not in a large conurbation, where property values might change dramatically in a short period of time.

[22] **Dafydd Wigley:** Before you come back in, Janice, can I just press you a little further on what you said, Mr Towns? You said that, by virtue of the fact that the price obtained was of the order of the valuation, that indicated that the original valuation, several years before, was more or less right. Would it not have been the case that if guidance was being given that that was the ball park in which offers were invited, it was hardly surprising that the offers came in somewhere

contractwyr preifat weithio i'n safonau penodedig ni.

[21] **Janice Gregory:** Yr wyf am ofyn cwestiwn i Nigel Towns, os y caf fi, Mr Towns. Cyfeiraf at baragraff 2.21 yn yr adroddiad. Mae'r adroddiad yn awgrymu bod pawb wedi dilyn y cyngor cyfreithiol a phroffesiynol priodol, ac eto, os darllenwch chi ymlaen ac edrych ar y gwahaniaeth rhwng y ffigurau, ymddengys na ofynnwyd am brisiad ffurfiol at ddibenion gwaredu. A allwch ddweud wrthym beth oedd y rhesymau am hynny?

Mr Towns: Fel y gwyddoch mae'n siŵr, Gadeirydd, nid yw'r sawl a ddeliodd â hyn yn gweithio gyda ni mwyach ac mae wedi ymddeol. Yr ydym wedi bod drwy'r cofnodion ac yr wyf yn credu bod yr eiddo wedi'i brisio, ar y dechrau, gan brisiwr dosbarth. Pe bai'r eiddo wedi bod ar y farchnad am beth amser, byddech wedi bod yn profi'r farchnad i sicrhau nad oedd y prisiad wedi newid. Yr oeddem mewn cysylltiad, yn amlwg, gyda'r gwerthwyr a benodwyd, yr oedd disgwyl iddynt sicrhau'r pris gorau i ni—a dweud y gwir, mae hynny o fudd iddynt gan eu bod yn cael comisiwn ar y pris gwerthu—ac yr oedd ein sefydliad mewn cysylltiad hefyd ag Ystadau Iechyd Cymru. Felly, yn yr achos hwn—a chredaf yr adlewyrchir hynny yn y pris gwerthu terfynol a'r cynigion a gawsom—credaf fod y prisiad, oedd oddeutu £350,000, yn gyfredol ac yn ddilys. Credaf, pe byddai hyn yn parhau am gyfnod hir, y byddech yn profi'r farchnad yn barhaus. Y peth arall i'w gofio yw bod y safle yn eithaf anneniadol; yr wyf yn meddwl ei fod wedi'i ddisgrifio fel safle anneniadol yn fasnachol. Nid yw mewn cytref fawr, lle gall gwerth eiddo newid yn ddramatig mewn cyfnod byr.

[22] **David Wigley:** Cyn i chi ofyn cwestiynau pellach, Janice, a gaf i bwyso arnoch chi ymhellach ynglŷn â'r hyn a ddywedasoch, Mr Towns? Dywedasoch, drwy rinwedd y ffaith bod y pris a gafwyd yn ganlyniad i'r prisiad, fod hynny'n dangos bod y prisiad gwreiddiol, sawl blwyddyn ynghynt, fwy neu lai yn gywir. Onid yw'n wir dweud, os oedd canllawiau wedi'u rhoi ynglŷn â'r rhychwant cynigion oedd yn dderbyniol, nad ydoedd yn syndod o gwbl

in that ball park?

bod y cynigion a ddaeth i law o fewn y rhychwant hwnnw?

Mr Towns: I think that you could draw that conclusion, but there was very little interest in the site other than by the people who are outlined in the report.

Mr Towns: Yr wyf yn meddwl y gallech ddod i'r casgliad hwnnw, ond ychydig iawn o ddiddordeb a oedd yn y safle ac eithrio gan y sawl a amlinellwyd yn yr adroddiad.

[23] **Dafydd Wigley:** I am sure we will come back to that. Sorry, Janice.

[23] **Dafydd Wigley:** Yr wyf yn siŵr y byddwn yn dychwelyd at hynny. Mae'n ddrwg gen i, Janice.

[24] **Janice Gregory:** May I press you a little for the benefit of those who do not perhaps have the report in front of them? What was the original valuation you were discussing?

[24] **Janice Gregory:** A gaf fi bwysu arnoch chi ryw faint er mwyn y rhai nad oes ganddynt o bosibl gopi o'r adroddiad o'u blaenau? Beth oedd y prisiad gwreiddiol yr oeddech yn ei drafod?

Mr Towns: I think that it was £348,600—

Mr Towns: Yr wyf yn meddwl mai £348,600 ydoedd—

[25] **Janice Gregory:** Right, £348,600. And what was the actual sale price, at the time of the sale?

[25] **Janice Gregory:** Iawn, £348,600. A beth oedd y pris gwerthu, ar adeg y gwerthu?

Mr Towns: It was £355,000.

Mr Towns: Y pris oedd £355,000.

[26] **Janice Gregory:** That was the price at the time of the sale? So you are content, then, that everything that could have been done was done? I appreciate that you were not party to it at the time.

[26] **Janice Gregory:** Ai dyna'r pris ar adeg y gwerthu? Felly yr ydych yn fodlon bod popeth y gellid bod wedi'i wneud wedi cael ei wneud? Yr wyf yn derbyn nad oeddech yn gysylltiedig â'r mater ar y pryd.

Mr Towns: I think, as the report recommends—there are changes that it recommends and I think that we need to take those on board. Again, knowing the individual concerned, I cannot understand why some of these things were not undertaken. The individual concerned was meticulous and thorough and I cannot understand why some of these things were not recorded. Perhaps we cannot find the documentation for it. However, I think that we need to follow the recommendations to make sure that we do get the best value.

Mr Towns: Credaf, fel y mae'r adroddiad yn ei argymell—mae newidiadau y mae'n ei argymell a chredaf y dylem dderbyn yr argymhellion hynny. Eto, o adnabod yr unigolyn dan sylw, ni allaf ddeall pam na wnaethpwyd rhai o'r pethau hyn. Yr oedd yr unigolyn dan sylw yn drwyadl a thrylwyr ac ni allaf ddeall pam na chofnodwyd rhai o'r pethau hyn. Efallai nad ydym yn gallu dod o hyd i'r ddogfennaeth ar ei gyfer. Fodd bynnag, credaf fod angen i ni ddilyn yr argymhellion i sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau.

[27] **Dafydd Wigley:** Alison, you wanted to come in before we go on?

[27] **Dafydd Wigley:** Alison, yr oeddech chi am ddweud rhywbeth cyn i ni symud ymlaen?

[28] **Alison Halford:** I hope I am not cutting across somebody else's questions. I found this whole situation exceedingly complicated so please bear with me if I ask silly questions.

[28] **Alison Halford:** Yr wyf yn gobeithio nad wyf yn torri ar draws cwestiynau rhywun arall. Mae'r holl sefyllfa hon yn gymhleth iawn i mi felly byddwch yn amyneddgar os

Surely, Mr Towns, the site became much more attractive sometime in June 1997, did it not?

Mr Towns: That was with the planning?

[29] **Alison Halford:** Yes.

Mr Towns: I think that the planning was changed. We—both the Powys District Health Authority in 1995 and the Dyfed Powys Health Authority in 1996—objected to the local plan of the Brecon Beacons National Park. A Welsh Office inspector recommended changes to the planning in February 1998 and that was notified to us in October 1998, by the national park, to sort of free up the planning. What it was not going to do, as I understand it, was to make it a sort of wholesale development, like we have had on some hospital sites, where the whole site has been redeveloped and a considerable number of houses have been put on there. But the—

[30] **Alison Halford:** So what was the planning permission?

[31] **Dafydd Wigley:** May we come back to that? There is a later section on this. It does have a bearing, clearly, on the valuation and I accept that. I will call you back in when we come to this point a little later on. I want to stick to the valuation for the moment because I think that Val has a point that links into that.

[32] **Val Lloyd:** I think Ms Lloyd or Mr Towns would be best to answer this. Do you consider that not having a formal valuation exposed the authority to accusations of impropriety?

Mr Towns: I think that that is an accusation that people could make. However, once they have read the report, it says that things could have been done better, like the record keeping, but the conclusion of the report does not suggest impropriety.

[33] **Val Lloyd:** No. I very much hear what

ydwyf yn gofyn cwestiynau twp, os gwelwch yn dda. Afraid dweud, Mr Towns, i'r safle ddod yn fwy deniadol rywbryd ym Mehefin 1997?

Mr Towns: Gyda'r caniatâd cynllunio yr ydych yn ei feddwl?

[29] **Alison Halford:** Ie.

Mr Towns: Yr wyf yn meddwl i'r caniatâd cynllunio gael ei newid. Fe wrthwynebom ni—Awdurdod Iechyd Dosbarth Powys yn 1995 ac Awdurdod Iechyd Dyfed Powys yn 1996—gynllun lleol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Argymhellodd arolygydd o'r Swyddfa Gymreig newidiadau i'r caniatâd cynllunio yn Chwefror 1998 a chawsom ein hysbysu o hynny yn Hydref 1998, gan y parc cenedlaethol, er mwyn llacio'r caniatâd cynllunio. Yr hyn nad oedd am ei wneud, fel y deallaf, oedd ei wneud yn fath ar ddatblygiad cyfanwerthol, fel y gwelwyd gyda rhai safleoedd ysbytai, lle mae'r safle cyfan wedi'i ail-ddatblygu a nifer sylweddol o dai wedi'u codi yno. Ond—

[30] **Alison Halford:** Felly, beth oedd y caniatâd cynllunio?

[31] **Dafydd Wigley:** A gawn ddychwelyd at hynny? Mae adran ar hyn yn ddiweddarach. Mae'n dylanwadu, yn bendant, ar y prisiad ac yr wyf yn derbyn hynny. Galwaf arnoch i ofyn cwestiwn pan ddeuwn ni at y pwnt hwn maes o law. Yr wyf am aros gyda'r prisiad ar hyn o bryd gan fod gan Val bwynt sy'n gysylltiedig â hynny.

[32] **Val Lloyd:** Yr wyf yn meddwl mai Ms Lloyd neu Mr Towns fyddai'n gallu ateb hyn orau. A ydych yn ystyried bod peidio â chael prisiad ffurfiol yn golygu y gellid bod wedi cyhuddo'r awdurdod o weithredu'n amhriodol?

Mr Towns: Yr wyf yn meddwl bod hynny'n gyhuddiad y gallai pobl ei wneud. Fodd bynnag, unwaith y byddant wedi darllen yr adroddiad, mae'n dweud y gellid bod wedi gwneud pethau'n well, fel cadw cofnodion, ond nid yw'n dod i'r casgliad bod yr awdurdod wedi gweithredu'n amhriodol.

[33] **Val Lloyd:** Na. Yr wyf yn

you are saying but, of course, that is with hindsight, is it not? I suppose the whole of today's session is about hindsight, to some extent, but clearly there have been allegations made in the press that the hospital was sold at less than its market value. Do you feel, perhaps, that not having a formal valuation has meant that you have not been able to refute those allegations?

Mr Towns: I do not think so.

[34] **Dafydd Wigley:** May I press you further on that? Had you had valuations that confirmed the value or, indeed, set a new value, would that not have been a sounder basis on which to justify and defend the position?

Mr Towns: Of course, the valuations could have been lower as well.

[35] **Dafydd Wigley:** They might well have been lower, but in that case at least—the people had the right to know what the market valuation was. Do you want to come back in on this, Val?

[36] **Val Lloyd:** No, I was going to say more or less the same thing.

[37] **Dafydd Wigley:** Right. We come back to you, Alison, in that case.

[38] **Alison Halford:** Thanks very much indeed. Could you, for my benefit, and hopefully for the benefit of others, explain—I do not care who does it—what the difference is between a formal tender, an informal tender, a best and final offer and whatever other little jollies we have had in the Auditor General's report?

Mr Jones: If I may just try to explain some of those, at least, the formal tender is a tender which, when accepted, has to be followed through. So if a purchaser puts in a £350,000 bid, and it is accepted, he has to then go ahead. So he has to be very certain of the value of the property to him in that situation. That would mean that he would have to probably go through asbestos tests, and ground tests, and all the tests that would satisfy him that he could use the property for

gwerthfawrogi'r hyn yr ydych yn ei ddweud, ond wrth gwrs, onid yw hynny wrth edrych yn ôl? Mae'n debyg bod yr holl sesiwn heddiw yn ymwneud ag edrych yn ôl, i ryw raddau, ond fe wnaed cyhuddiadau yn y wasg fod yr ysbyty wedi'i werthu am bris is na'i werth ar y farchnad. A ydych yn teimlo, efallai, bod peidio â chael prisiad ffurfiol wedi golygu nad ydych wedi gallu gwrthbrofi'r cyhuddiadau hynny?

Mr Towns: Nid wyf yn meddwl hynny.

[34] **Dafydd Wigley:** A allaf eich pwysu ymhellach ar hynny? Pe baech wedi cael prisiadau a oedd yn cadarnhau gwerth yr ysbyty neu yn wir, yn pennu gwerth newydd, oni fyddai hynny wedi bod yn sail fwy cadarn i gyfiawnhau ac amddiffyn y sefyllfa?

Mr Towns: Wrth gwrs, gallai'r prisiadau fod wedi bod yn is hefyd.

[35] **Dafydd Wigley:** Efallai'n wir eu bod yn is, ond yn yr achos hwnnw o leiaf—yr oedd gan y bobl yr hawl i wybod beth oedd pris y farchnad. Ydych chi am ddod i mewn ar hyn, Val?

[36] **Val Lloyd:** Nag ydw, yr oeddwn yn mynd i ddweud mwy neu lai yr un peth.

[37] **Dafydd Wigley:** Iawn. Deuwn yn ôl atoch chi, Alison, felly.

[38] **Alison Halford:** Diolch yn fawr iawn. A allwch, er fy mwyn i, ac eraill gobeithio, egluro—nid oes wahaniaeth gennyf pwy sy'n gwneud—beth yw'r gwahaniaeth rhwng tendr ffurfiol, tendr anffurfiol, cynnig gorau a therfynol ac unrhyw bethau difyr eraill a nodwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol?

Mr Jones: Os caf geisio egluro rhai o'r pethau hynny, o leiaf, mae'r tendr ffurfiol yn dendr sy'n rhaid ei ddilyn trwodd ar ôl cael ei dderbyn. Felly, os yw prynwr yn gwneud cynnig o £350,000, sy'n cael ei dderbyn, mae'n rhaid iddo fynd ymlaen â'r gwaith wedyn. Felly, mae'n rhaid iddo fod yn sicr iawn o werth yr eiddo iddo ef yn y sefyllfa honno. Byddai hynny'n golygu y byddai'n rhaid iddo, mae'n debyg, wneud profion asbestos, a phroffion daear, a'r holl broffion a

his purposes. That comes at considerable cost and there are circumstances where it is certainly very appropriate. If you had a 100-acre site that had full residential development potential on it, it would cost a very small proportion of the value of the site to undertake all those tests.

An informal tender is one where someone can put in a bid in which, if it is accepted, the purchaser can then go through all those tests and possibly negotiate his way out of the bid at the end of the day. Quite often, informal tenders, when accepted, do not reach a conclusion. That is the risk that we take when we offer a property on the market under informal circumstances. It is my belief that if we had offered this particular property on the market on a formal basis we would not have had any bids at all.

[39] **Alison Halford:** So which one did you actually end up with then?

Mr Jones: With an informal tender.

[40] **Alison Halford:** Okay.

Mr Jones: You asked about best and final bids. If we have an informal tender which has a clear leader, which is substantially above any other bid, then we would not go to best and final bids. If, however, there are several bidders in the same ball court and we think that, with a little persuasion, they might offer more, or a more conclusive bidder may emerge, we can ask them for best and final bids.

[41] **Dafydd Wigley:** May I just ask you—sorry to cut across, Alison—how that rests with Ann Lloyd's earlier comments with regard to the formal system, which you quite clearly advocate?

Mr Jones: No, I do not think so. I think that the previous question still referred to an informal tender, but in sealed envelopes.

Ms Lloyd: You still have to go through the process.

[42] **Dafydd Wigley:** Right. So you accept

fyddai'n ei fodloni y gallai ddefnydio'r eiddo i'w ddibenion ef. Mae hynny'n gost sylweddol ac mae amgylchiadau lle mae hynny'n briodol iawn. Yn sicr, pe bai gennych safle 100 erw â photensial llawn i ddatblygu cartrefi arno, cyfran fechan iawn o werth y safle fyddai'n rhaid ei thalu i wneud yr holl brofion hynny.

Tendr anffurfiol yw un lle y gall rhywun wneud cynnig, ac os yw'n cael ei dderbyn gall y prynwr wneud yr holl brofion hynny ac, o bosibl, dynnu ei enw o'r cynnig ar ôl trafod yn y pen draw. Yn eithaf aml, nid yw tendrau anffurfiol sy'n cael eu derbyn yn cael eu cwblhau. Dyma'r risg yr ydym yn ei gymryd wrth roi eiddo ar y farchnad dan amgylchiadau anffurfiol. Yn fy marn i, pe baem wedi cynnig yr eiddo hwn ar y farchnad ar sail anffurfiol ni fyddem wedi cael unrhyw gynigion o gwbl.

[39] **Alison Halford:** Felly, pa fath o dendr a gawsoch yn y pen draw?

Mr Jones: Tendr anffurfiol.

[40] **Alison Halford:** Iawn.

Mr Jones: Gofynnodd am gynigion gorau a therfynol. Os oes gennym dendr anffurfiol sydd ag arweinydd clir, sy'n sylweddol uwch nag unrhyw gynnig arall, yna ni fyddem yn mynd at gynigion gorau a therfynol. Fodd bynnag, os oes sawl cynigydd yn debyg i'w gilydd a'n bod yn credu y gallent gynnig mwy, gydag ychydig berswâd, neu y byddai cynigydd mwy pendant yn dod i'r fei, gallwn ofyn iddynt am gynigion gorau a therfynol.

[41] **Dafydd Wigley:** A gaf i ofyn i chi—mae'n ddrwg gen i dorri ar eich traws, Alison—sut mae hynny'n cyd-fynd â sylwadau cynharach Ann Lloyd ar y system ffurfiol, yr ydych yn amlwg o'i phlaid?

Mr Jones: Na, nid wyf yn credu hynny. Credaf fod y cwestiwn blaenorol yn dal i gyfeirio at dendr anffurfiol, ond mewn amlenni wedi eu selio.

Ms Lloyd: Mae'n rhaid i chi fynd drwy'r broses doed a ddél.

[42] **Dafydd Wigley:** Iawn. Felly yr ydych

that there could be informal tenders in sealed envelopes, and that the system could have been worked sealed although it would still be an informal—

Mr Jones: Absolutely. However, if I may make the point, in this case, we would not have had the final purchaser if we had insisted on it being in a sealed envelope because she approached us by fax.

[43] **Dafydd Wigley:** By fax? Right, so the question of how one handles fax in this day and age is something that is no doubt exercising you. Would you like to comment on that, Ann Lloyd?

Ms Lloyd: Yes, that is exercising us and that is why we are trying to ensure that we can get around that problem. There are ways of doing it, because it happens occasionally, but we still require formal or informal sealed tenders. May I just add something that did not come through in the Auditor General's report, which might help this situation? A formal tender is binding on both sides, and it must be remembered that when this property was offered for sale, there were patients in there. Although it states in figure 2 that Powys District Health Authority had said that the site would be vacated in 1997-98, it was not in fact—there were still 70 patients living in this hospital, and obviously our first concerns were for them. So we could not offer a formal tendering process because it would be binding on our side to remove the patients for completion of the sale. Therefore, I can imagine that the thought process was—I cannot say whether this is true or not; it is not documented—that you would go for an informal tendering process knowing that any formal tender would have to be binding on each side, and we had patients to look after there.

[44] **Dafydd Wigley:** That helps to clarify things.

[45] **Alison Halford:** I am not sure that it does for me, Chair, but thank you. So you have the informal tender and we think that the deadline was 17 May in some particular year. Is there any good reason why the safeguard of unmarked bids, simultaneously

yn derbyn y gallai fod tendrau anffurfiol mewn amlenni wedi'u selio, ac y gallai'r system fod wedi gweithio dan sêl er y byddai'n dal i fod yn dendr anffurfiol—

Mr Jones: Yn hollol. Fodd bynnag, os caf i wneud y pwynt, yn yr achos hwn, ni fyddem wedi cael y prynwr terfynol pe baem wedi mynnu cael y cynnig mewn amlen wedi ei selio gan ei bod wedi cyflwyno'r cynnig drwy'r ffacs.

[43] **Dafydd Wigley:** Drwy'r ffacs? Iawn, felly mae sut y mae rhywun yn trafod y ffacs yn yr oes sydd ohoni yn rhywbeth sy'n eich poeni. A fydddech yn hoffi rhoi sylwadau ar hynny, Ann Lloyd?

because, if we do undertake to tell the purchasers everything but we fail to do so, we become liable for any misunderstanding that they have. What we did was to encourage them at all times to be talking to the local planning authority. Each of the bidders had a totally different scheme. I do not think that two schemes were similar in many ways at all. So each one's interest in what the planning situation was and in talking to the planners was wildly different. That is the way that we would normally want to do business. We are not there to make sure that they are clear on every change in the planning circumstance. Having said that, I am sure that every purchaser would have been made aware that it was worth them talking to the planners when a significant change took place. Sorry, that was a bit long.

[107] **Dafydd Wigley:** Before Alun comes back on that, I just want to pick up one point from paragraph 3.35 of the report, which includes the definition that:

‘The best price reasonably obtainable is that provided by a fully informed open market.’

I emphasise the words ‘fully informed’. If the market—which means potential bidders as well as those who have already made a bid—is not fully informed as to a possible change in the planning status, does that not mean that the market was not fully informed and therefore it could not have been the best price?

Mr Jones: What I am suggesting is that we did that by encouraging them to go frequently and talk to the planners about their bids.

[108] **Dafydd Wigley:** So you were telling people who had already got in touch. Was there, at any stage in this last bid, an advert put out that indicated the revised, updated planning status that existed in 1999?

Mr Jones: Not as far as I am aware.

[109] **Dafydd Wigley:** So the market in general was not aware of that.

unigol. Yr wyf yn pwysleisio hyn oherwydd pe byddem yn addo dweud popeth wrth brynwyr ond yn methu gwneud hynny, byddem yn atebol am unrhyw gamddealltwriaeth ar eu rhan. Yr hyn a wnaethom oedd eu hannog i siarad yn gyson â'r awdurdod cynllunio lleol. Yr oedd gan bob un o'r cynigwyr gynllun hollol wahanol. Nid wyf yn meddwl bod yr un o'r cynlluniau yn debyg i'w gilydd. Felly yr oedd diddordeb pob un yn y sefyllfa gynllunio ac o ran siarad â'r cynllunwyr yn gwbl wahanol. Dyna sut y byddem am wneud busnes fel rheol. Nid ydym yno i sicrhau eu bod yn deall pob un newid yn y sefyllfa gynllunio. Wedi dweud hynny, yr wyf yn sicr y byddai pob prynwr yn ymwybodol ei bod hi'n werth iddynt siarad â'r cynllunwyr ar adeg o newid sylweddol. Mae'n ddrwg gen i am roi ateb a oedd braidd yn hir.

[107] **Dafydd Wigley:** Cyn i Alun ymateb, yr wyf am sôn am un pwynt o baragraff 3.35 yr adroddiad, sy'n cynnwys y diffiniad mai:

‘Y pris gorau y gellid yn rhesymol ei gael yw'r un a ddarperir gan farchnad agored hyddysg iawn.’

Yr wyf yn pwysleisio'r geiriau ‘hyddysg iawn’. Os nad yw'r farchnad—sy'n golygu darpar gynigwyr yn ogystal â'r rhai sydd eisoes wedi gwneud cynnig—yn hyddysg iawn ynghylch newid posibl yn y statws cynllunio, onid yw hynny'n golygu nad oedd y farchnad yn hyddysg iawn ac felly na allai'r pris fod y pris gorau?

Mr Jones: Yr hyn yr wyf yn ei awgrymu yw ein bod wedi gwneud hynny drwy eu hannog i drafod eu cynigion yn rheolaidd gyda'r cynllunwyr.

[108] **Dafydd Wigley:** Felly yr oeddech yn sôn wrth bobl oedd eisoes wedi cysylltu. A roddwyd hysbyseb, yn ystod unrhyw gam yn y cynnig diwethaf, yn nodi'r statws cynllunio diwygiedig, diweddaredig oedd yn bodoli yn 1999?

Mr Jones: Ddim hyd y gwn i.

[109] **Dafydd Wigley:** Felly nid oedd y farchnad yn gyffredinol yn ymwybodol o

hynny.

Mr Jones: I think it probably was, but I take your point.

Mr Jones: Yr wyf yn meddwl ei bod hi, ond deallaf eich pwynt.

[110] **Alun Cairns:** May I couple that with Mr Jones's previous answer, Mr Towns? Do you think that it was marketed effectively and that everyone was aware of the changes in development potential?

[110] **Alun Cairns:** A gaf i gymryd hynny gydag ateb blaenorol Mr Jones, Mr Towns? Ydych chi'n credu ei bod wedi'i marchnata'n effeithiol a bod pawb yn ymwybodol o'r newidiadau yn y potensial i ddatblygu?

Mr Towns: The answer to the question is that I do not know; I was not involved with it.

Mr Towns: Yr ateb i'r cwestiwn yw nad wyf yn gwybod; nid oeddwn yn rhan ohono.

[111] **Alun Cairns:** No, but with the benefit of hindsight, would you conduct another sale in a similar way?

[111] **Alun Cairns:** Na, ond o allu edrych yn ôl, a fyddech chi'n gwerthu eiddo arall mewn ffordd debyg?

Mr Towns: I think that we have to pick up the recommendations in the report and—

Mr Towns: Yr wyf yn meddwl bod yn rhaid i ni roi sylw i argymhellion yr adroddiad a—

[112] **Alun Cairns:** I am trying to tease out a difference now, in relation to the answer that Mr Jones gave, because it seems that Mr Jones is quite satisfied with the role of the agent in marketing the property.

[112] **Alun Cairns:** Yr wyf yn ceisio gweld a oes gwahaniaeth yn awr, yng nghyd-destun yr ateb a roddodd Mr Jones, gan ei bod hi'n ymddangos bod Mr Jones yn eithaf bodlon â rôl y gwerthwr wrth farchnata'r eiddo.

Mr Towns: I think that the report identifies that we asked the agent, or the agent was notified and knew about the change. There is no evidence one way or the other to say whether it did market it to a wider audience than those bids that they had already had. But I think that what you would do, if there is a change—let us be clear what the change was: the change was not to allow housing development on the whole of the site; it was to use, as I understand it, the existing buildings, the existing hospital, for conversion into residential accommodation.

Mr Towns: Yr wyf yn meddwl bod yr adroddiad yn nodi ein bod ni wedi gofyn i'r gwerthwr, neu fod y gwerthwr wedi'i hysbysu ac yn gwybod am y newid. Nid oes tystiolaeth y naill ffordd na'r llall i ddweud a wnaeth farchnata'r eiddo i gynulleidfa ehangach na'r cynigion hynny a oedd eisoes wedi dod i law. Ond yr wyf yn meddwl mai'r hyn fydddech chi'n ei wneud, pe bai yna newid—gadewch i ni fod yn glir ynglŷn â beth oedd y newid: y newid oedd peidio â chaniatáu datblygu tai ar y safle cyfan; y bwriad, yn ôl yr hyn a ddeallaf, oedd defnyddio'r adeiladau presennol, yr ysbyty presennol, a'u troi yn llety preswyl.

[113] **Alun Cairns:** Okay, existing buildings. What sort of percentage of the floor space would that amount to?

[113] **Alun Cairns:** Iawn, adeiladau presennol. Pa fath o ganran o'r arwynebedd llawr fyddai hynny?

Mr Towns: I do not know whether Mr Jones—

Mr Towns: Nid wyf yn gwybod a yw Mr Jones—

[114] **Dafydd Wigley:** Are we not talking about 95 per cent of something about 200,000 sq ft, which would be about 180,000 sq ft, which, if I am right, amounts to about 4.5 acres? Am I right?

[114] **Dafydd Wigley:** Onid ydym yn sôn am 95 y cant o rywbeth sydd tua 200,000 troedfedd sgwâr, a fyddai tua 180,000 troedfedd sgwâr, sydd, os ydw i'n gywir, tua 4.5 erw? A wyf yn iawn?

Mr Jones: Yes, that is right.

[115] **Alun Cairns:** Is it fair to say, or can we make the assumption, that that is quite significant?

Mr Jones: It is a significant amount of space, yes. However, there is not a significant market for that much accommodation in rural mid Wales.

[116] **Dafydd Wigley:** With respect, how do you know that if it was not advertised? Is it not the case that, in October 1998, the Brecon Beacons National Park Authority notified the selling agents of the proposed changes in the deposit local plan, and that in March the authority decided to readvertise, but it appears that that did not become part of the readvertisement, which seems extremely strange?

Mr Jones: If that is the sequence, then it does seem strange.

[117] **Alun Cairns:** So, going back to your previous answer, would you say that the marketing was flawed?

Mr Jones: I would have to say that the circumstances just described are flawed, yes.

[118] **Alun Cairns:** Okay. You also mentioned in your previous answer, Mr Jones, that you would expect serious bidders—I recognise that I am paraphrasing slightly—to liaise with the planning authorities to satisfy themselves, because you said that the responsibility falls to them. If you are seeking to gain the best market price for a property, do you think that just passing bidders on to planning departments is the most effective way of dealing with this?

Mr Jones: In many ways, yes, I do.

[119] **Alun Cairns:** So you would prefer conservative planners to market and advise on the purchase of a property?

Mr Jones: No, I just think that it is important that the detail of what they want to do is discussed with the planners. We could only

Mr Jones: Ydych, mae hynny'n iawn.

[115] **Alun Cairns:** Mae'n deg dweud, neu a allwn dybio, fod hynny'n eithaf sylweddol?

Mr Jones: Mae'n lle mawr, ydi. Fodd bynnag, nid oes marchnad sylweddol ar gyfer cymaint â hynny o lety yng nghefn gwlad canolbarth Cymru.

[116] **Dafydd Wigley:** Gyda phob parch, sut ydych chi'n gwybod hynny os na chafodd ei hysbysebu? Onid oedd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi hysbysu'r gwerthwyr yn Hydref 1998 o'r newidiadau arfaethedig i'r cynllun gwaredu lleol, a bod yr awdurdod wedi penderfynu ailhysbysebu ym Mawrth, ond mae'n debyg na ddaeth yn rhan o'r ail hysbyseb, sy'n ymddangos yn beth rhyfedd iawn?

Mr Jones: Os mai dyna fel y digwyddodd pethau, yna mae'n ymddangos yn rhyfedd.

[117] **Alun Cairns:** Felly, i ddychwelyd at eich ateb blaenorol, a fyddech chi'n dweud bod y marchnata'n ddiffygiol?

Mr Jones: Byddai'n rhaid i mi ddweud bod yr amgylchiadau sydd newydd eu disgrifio yn ddiffygiol, byddai.

[118] **Alun Cairns:** Iawn. Fe sonioch hefyd yn eich ateb blaenorol, Mr Jones, y byddech chi'n disgwyl i gynigwyr o ddifrif—yr wyf yn cydnabod fy mod yn aralleirio rhywfaint—drafod gyda'r awdurdodau cynllunio er mwyn bodloni eu hunain, gan eich bod yn dweud mai hwy sy'n gyfrifol. Os ydych yn ceisio cael pris gorau'r farchnad am eiddo, ydych chi'n credu mai trosglwyddo cynigwyr i adrannau cynllunio yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddelio â hyn?

Mr Jones: Ydw, mewn llawer o ffyrdd.

[119] **Alun Cairns:** Felly byddai'n well gennyh i gynllunwyr ceidwadol farchnata a chynghori ar brynu eiddo?

Mr Jones: Na, yr wyf yn meddwl ei bod hi'n bwysig eu bod yn trafod â'r cynllunwyr fanylion yr hyn y maent am ei wneud.

discuss it in general terms.

[120] **Alun Cairns:** To move on, Ms Lloyd, do you feel that, in light of the experience, you have any suggestions on how NHS bodies could ensure that marketing is presented in a more productive way in the future?

Ms Lloyd: I think that certainly there needs to be an absolute clarity about the planning environment in which the property is being marketed. I think that we need to ensure that best practice, in terms of marketing, is followed at all times. The NHS is not a property development organisation. Nevertheless, we would wish to be assured in my department now that every opportunity has been explored to ensure that we are getting the best value for money and that everybody interested, or possibly interested, in acquiring the property for whatever reason is absolutely aware of the changes in circumstances, or the proper circumstances and potential of the site. That is why I think that a business case—although we do not want to get overly bureaucratic—for disposal is really essential.

[121] **Alun Cairns:** I have one final question, Cadeirydd, with your permission. Bearing in mind the unusual mode of bidding—through the fax machine to the Secretary of State's office—and the lack of information over planning changes, Ms Lloyd, do you accept that this could look fishy, albeit that that may just be a perception?

Ms Lloyd: May I just remind the Committee that no bid was sent to the Secretary of State. It was a request for an extension of time only. He quite rightly did not deal with it. However, I think that anything that, in the light of the transparency in which we wish to conduct our affairs, gives the public cause for concern that value for money has not been obtained, must be rectified in terms of the way in which we manage our affairs in the future.

[122] **Dafydd Wigley:** Before I call Alison, may I draw your attention to the contents of a letter that has come to our attention, which was sent to Mr Martin Shipton of the *Wales on Sunday* by the eventual purchaser. She

Gallem ond ei drafod yn gyffredinol.

[120] **Alun Cairns:** I symud ymlaen, Ms Lloyd, a ydych yn teimlo, yng ngoleuni y profiad, fod gennych awgrymiadau ar sut gallai cyrff y GIG sicrhau bod marchnata'n cael ei gyflwyno mewn ffordd fwy cynhyrchiol yn y dyfodol?

Ms Lloyd: Yr wyf yn meddwl bod angen bod yn hollol glir am yr amgylchedd cynllunio y caiff yr eiddo ei farchnata ynddo yn sicr. Credaf fod angen i ni sicrhau yr arferion marchnata gorau bob amser. Nid yw'r GIG yn sefydliad sy'n datblygu eiddo. Serch hynny, hoffai fy adran dderbyn sicrwydd yn awr fod pob cyfle wedi'i archwilio i sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau am arian a bod pawb sydd â diddordeb, neu â diddordeb posibl, mewn caffael yr eiddo am ba reswm bynnag yn hollol ymwybodol o'r newidiadau mewn amgylchiadau, neu amgylchiadau a photensial priodol y safle. Dyna pam y credaf fod achos busnes—er nad ydym am fynd yn orfiwrocraidd—yn gwbl hanfodol ar gyfer gwaredu.

[121] **Alun Cairns:** Mae gennyf un cwestiwn olaf, Gadeirydd, i'w ofyn â'ch caniatâd. O gofio'r dull cynnig anarferol—dros y ffacs i swyddfa'r Ysgrifennydd Gwladol—a'r diffyg gwybodaeth am newidiadau cynllunio, Ms Lloyd, a fyddech chi'n derbyn y gallai hyn edrych yn amheus, er mai canfyddiad yn unig fyddai hynny o bosibl?

Ms Lloyd: A gaf i atgoffa'r Pwyllgor nad anfonwyd cynnig at yr Ysgrifennydd Gwladol. Cais am ymestyn amser yn unig ydoedd. Ni ddeliodd ef, yn hollol gywir, â'r mater o gwbl. Fodd bynnag, yn sgîl ein dymuniad i weithredu'n agored, credaf fod unrhyw beth sy'n destun pryder i'r cyhoedd o ran peidio â chael gwerth am arian, angen ei unioni o ran y ffordd yr ydym yn rheoli ein gwaith yn y dyfodol.

[122] **Dafydd Wigley:** Cyn i mi alw Alison, a gaf i dynnu eich sylw at gynnwys llythyr sydd wedi dod i law, a anfonwyd at Mr Martin Shipton o'r *Wales on Sunday*, gan y brynwraig derfynol. Fe ddywed yn ei llythyr:

says in this letter:

‘Knight Frank said that it was too late to put in another bid because decisions had been made and recommendations were being put to the health authority within a week or so. I asked the price of their offer which was about to be accepted and was told £350,000.’

That was before she put her bid in. I understand that her position may have changed slightly in the evidence that she gave to the Auditor General, but is it not outrageous that a potential bidder could have asked what the price was—the best price that was running—be told it, and put in a bid herself some £5,000 higher?

Ms Lloyd: As I understand from the Auditor General’s report, the actual highest bid was not £350,000 at that time and, as I understand from his report, what the agent provided her with was the estimate of what the value of that property was.

[123] **Dafydd Wigley:** I understand also that that is the evidence that was given to the Auditor General. However, I come back to the letter, a copy of which I have before me, written by her in the first person:

‘I asked the price of their offer’—

that was the best offer that was standing—

‘which was about to be accepted and was told £350,000.’

Now, for a person to put that in black and white, fairly soon after the event, certainly raises questions.

Ms Lloyd: If that was the case, then, in my opinion, that breaches professional standards.

[124] **Dafydd Wigley:** Indeed. I think we would very much agree with that. Alison, would you like to ask a question?

[125] **Alison Halford:** Yes. I do not think that this has been covered and, bearing in mind that the word ‘fishy’ has been used, you

Dywedodd Knight Frank ei bod hi’n rhy hwyr i wneud cynnig arall gan fod penderfyniadau wedi’u gwneud ac argymhellion yn cael eu gwneud i’r awdurdod iechyd ymhen tua wythnos. Gofynnais beth oedd pris eu cynnig a oedd ar fin cael ei dderbyn a rhoddwyd pris o £350,000 i mi.

Yr oedd hynny cyn iddi gyflwyno ei chynnig. Deallaf y gallai ei sefyllfa fod wedi newid ychydig yn y dystiolaeth a roddodd i’r Archwilydd Cyffredinol, ond onid ydyw’n warthus y gallai darpar gynigydd fod wedi gofyn beth oedd y pris—y pris gorau ar y pryd—cael y wybodaeth, a gwneud cynnig o £5,000 yn uwch ei hun?

Ms Lloyd: Yn ôl yr hyn a ddeallaf o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, nid £350,000 oedd y cynnig uchaf ar y pryd ac, yn ôl yr hyn a ddeallaf o’i adroddiad, yr hyn y rhoddodd y gwerthwr iddi oedd amcangyfrif o werth yr eiddo.

[123] **Dafydd Wigley:** Deallaf hefyd mai dyna’r dystiolaeth a roddwyd i’r Archwilydd Cyffredinol. Fodd bynnag, dychwelaf at y llythyr, y mae copi ohono gennyf yma, a ysgrifennwyd ganddi yn y person cyntaf:

Gofynnais beth oedd pris eu cynnig—

sef y cynnig gorau ar y pryd—

oedd ar fin cael ei dderbyn a rhoddwyd pris o £350,000 i mi.

Nawr, mae’r ffaith fod rhywun wedi rhoi hynny ar ddu a gwyn, yn gymharol fuan wedi’r digwyddiad, yn codi cwestiynau.

Ms Lloyd: Os dyna a ddigwyddodd, yna, yn fy marn i, mae hynny’n torri safonau proffesiynol.

[124] **Dafydd Wigley:** Yn wir. Yr wyf yn meddwl y byddem yn cytuno’n llwyr â hynny. Alison, a ydych am ofyn cwestiwn?

[125] **Alison Halford:** Ydw. Nid wyf yn credu bod hyn wedi cael sylw ac, o gofio fod y gair ‘amheus’ wedi’i ddefnyddio, efallai yr

might like to look at paragraph 2.40. I will read a part of it for those who do not have the report, if you would indulge me, Chair.

‘The Authority kept a substantial body of records, but not all decisions were fully documented. As already mentioned it did not keep a record of: its decision to proceed with a split conveyance; its consideration and rejection of the advice that it received from the Welsh Office Estates Department in November 1995 to obtain an updated valuation independent of its agent; its actions to ensure that all potential purchasers were informed of the proposed changes in planning restrictions on part of the site from October 1998.’

We know that the planning decision took place in 1997. Do you not agree that not to record these three rather fundamental aspects was somewhat fishy? I do not mind who answers. It may be that Mr Jones was around at the time.

Mr Jones: There is really no excuse for not having the records clear for everybody to see now. I would not offer an explanation for that.

[126] **Alison Halford:** But we have heard, have we not, about meticulous people making notes, and yet three—in fact four, but we will talk about clawback later—major items were not recorded?

[127] **Dafydd Wigley:** I think that they have accepted that this is a major deficiency that cannot possibly be justified.

Ms Lloyd: That is right.

[128] **Alison Halford:** But for the good of the public—the public would like some sort of comment, I am sure, Chair.

[129] **Dafydd Wigley:** Yes. That is now on record and will be borne in mind when we come to draw up our report. Jocelyn, would you like to come in on this before I call Val?

[130] **Jocelyn Davies:** Yes. On this point, we are told that this particular official was normally meticulous in record keeping—the

hoffech edrych ar baragraff 2.40. Ddarllenaf ran ohono i'r rhai nad oes ganddynt gopi o'r adroddiad, os caf i, Gadeirydd.

‘Cadwodd yr Awdurdod gorff sylweddol o gofnodion, ond ni chafodd pob penderfyniad ei ddogfennu'n llawn. Fel y soniwyd eisoes ni chadwodd gofnod o: ei benderfyniad i fwrw ymlaen â thrawsgludo wedi ei rannu; ei ystyriaeth a'i wrthodiad o'r cyngor a gafodd gan Adran Ystadau'r Swyddfa Gymreig ym mis Tachwedd 1995 i gael y prisiad diweddaraf yn annibynnol ar ei asiant; ei weithredoedd i sicrhau bod pob darpar brynwr yn cael ei hysbysu o'r newidiadau arfaethedig yn y cyfyngiadau cynllunio ar ran o'r safle o fis Hydref 1998.’

Gwyddom fod y penderfyniad cynllunio wedi'i wneud yn 1997. A gytunwch fod peidio â chofnodi'r dair agwedd hynod sylfaenol yma rywfaint yn amheus? Nid oes wahaniaeth gennyf pwy sy'n ateb. Efallai fod Mr Jones o gwmpas ar y pryd.

Mr Jones: Nid oes esgus mewn gwirionedd am beidio â chael cofnodion clir i bawb eu gweld yn awr. Ni fyddwn yn cynnig esboniad am hynny.

[126] **Alison Halford:** Ond onid ydym wedi clywed am bobl drwyadl yn gwneud nodiadau, ac eto ni chofnodwyd tair—na, pedair, ond siaradwn am adfachu wedyn—eitem bwysig?

[127] **Dafydd Wigley:** Credaf eu bod wedi derbyn fod hyn yn ddiffyg mawr na ellir ei gyfiawnhau o gwbl.

Ms Lloyd: Mae hynny'n wir.

[128] **Alison Halford:** Ond er lles y cyhoedd—byddai'r cyhoedd yn hoffi rhyw fath o sylw, yr wyf yn siŵr, Gadeirydd.

[129] **Dafydd Wigley:** Byddent. Mae hynny bellach wedi'i gofnodi a bydd yn cael ei ystyried wrth lunio ein hadroddiad. Jocelyn, ydych chi am ddod i mewn yma cyn i mi alw ar Val?

[130] **Jocelyn Davies:** Hoffwn. Ar y pwynt hwn, dywedwyd bod y swyddog penodol hwn yn drwyadl iawn o ran cadw

official has been described as meticulous about two or three times, I think. So were these records never made or have they been lost?

[131] **Alun Cairns:** Or destroyed.

[132] **Jocelyn Davies:** Or destroyed. Is there any evidence that records were made but were not sufficient to cover these points? Were they never found? Have they been lost since?

Mr Towns: We have the records and we have made a search of the records. Obviously, some of them were with Powys District Health Authority—the earlier ones, which record the majority of this, about the split conveyancing and the 1995 issue, would have been Powys District Health Authority files. The later issue, in 1998, would have been on the Dyfed Powys Health Authority files. My information is that searches were made for this information, and it was not found. There were a number of other matters, which are identified in the report—reasons for the clawback and things like that—that were not recorded. I find it, as I have said, unacceptable, and it should have been recorded.

[133] **Jocelyn Davies:** But as this is coming from an official who was normally meticulous, do we know whether these records were never made or is it just that they have never been found?

Mr Towns: We do not know. The individual retired.

[134] **Jocelyn Davies:** We do not know, even given a meticulous record keeper.

[135] **Dafydd Wigley:** Janet do you want to say something on that very quickly? I want to move on to the clawback.

[136] **Janet Davies:** Yes. Very specifically on that, these complaints started coming in—I do not know when people began to be aware of them—but did anybody have access to those records once it was known that complaints were being made about the way that the sale was handled, or were they put in a safe and secure place immediately?

cofnodion—disgrifiwyd y swyddog fel unigolyn drwyadl, ddwy neu dair gwaith, yr wyf yn meddwl. Felly a wnaed y cofnodion hyn o gwbl neu a ydynt wedi mynd ar goll?

[131] **Alun Cairns:** Neu eu difa.

[132] **Jocelyn Davies:** Neu eu difa. A oes tystiolaeth fod cofnodion wedi'u gwneud ond nad oeddynt yn ddigonol i gwmpasu'r pwyntiau hyn? Oni chafwyd hyd iddynt o gwbl? A gollwyd hwy ers hynny?

Mr Towns: Mae'r cofnodion gennym ac yr ydym wedi eu harchwilio. Yn amlwg, yr oedd rhai ohonynt gan Awdurdod Iechyd Dosbarth Powys—byddai'r rhai cynharaf, sy'n cofnodi'r rhan fwyaf o hyn, am y trawsgludo wedi ei rannu a mater 1995, yn ffeiliau Awdurdod Iechyd Dosbarth Powys. Byddai'r mater diweddarach, yn 1998, wedi bod ar ffeiliau Awdurdod Iechyd Dyfed Powys. O'r wybodaeth sydd gen i, fe chwiliwyd am y wybodaeth hon, ond ni ddaethpwyd o hyd iddi. Yr oedd nifer o faterion eraill, a nodwyd yn yr adroddiad—rhesymau dros adfachu a phethau felly—na chafodd eu cofnodi. Mae'r cyfan, fel y dywedais, yn annerbyniol, ac fe ddylid fod wedi'i gofnodi.

[133] **Jocelyn Davies:** Ond gan fod hyn yn dod oddi wrth swyddog a oedd yn drwyadl fel arfer, a ydym yn gwybod na wnaed y cofnodion hyn o gwbl neu na ddaethpwyd o hyd iddynt o gwbl?

Mr Towns: Nid ydym yn gwybod. Mae'r unigolyn dan sylw wedi ymddeol.

[134] **Jocelyn Davies:** Nid ydym yn gwybod, er ei fod yn gofnodwr drwyadl.

[135] **Dafydd Wigley:** Janet, a ydych am ddweud rhywbeth am hynny'n gyflym iawn? Yr wyf am symud ymlaen i drafod adfachu.

[136] **Janet Davies:** Ydw. Yn benodol ar hynny, dechreuodd y cwynion hyn gyrraedd—nid wyf yn gwybod pryd y dechreuodd pobl fod yn ymwybodol ohonynt—ond a oedd gan rywun fynediad i'r cofnodion hynny unwaith ei bod hi'n hysbys bod cwynion yn cael eu gwneud ynglŷn â'r ffordd y gwerthwyd yr eiddo, neu a roddwyd

hwy mewn lle diogel yn syth?

Mr Towns: They would have been in storage with lots of our other records, which we have to keep—patient records and so on.

Mr Towns: Byddent wedi'u storio â llawer o'n cofnodion eraill, sy'n rhaid i ni eu cadw—cofnodion cleifion ac ati.

[137] **Dafydd Wigley:** Secure storage?

[137] **Dafydd Wigley:** Mewn lle diogel?

Mr Towns: They are all kept as secure items, yes.

Mr Towns: Maent i gyd yn cael eu cadw fel eitemau diogel, ydynt.

[138] **Dafydd Wigley:** I want to move on as we are squeezed for time. The question of clawback is very important. Can you take that on, Val?

[138] **Dafydd Wigley:** Yr wyf am symud ymlaen gan fod amser yn brin. Mae cwestiwn adfachu yn bwysig iawn. A allwch chi drafod hynny, Val?

[139] **Val Lloyd:** Yes. I will refer to paragraph 3.26. I know that clawback was mentioned earlier, and I will probably come back to that. This question is probably best directed at Ms Lloyd. Were the circumstances that made clawback unrealistic for this disposal unusual or do they apply to other properties?

[139] **Val Lloyd:** Gallaf. Cyfeiriaf at baragraff 3.26. Yr wyf yn gwybod i adfachu gael ei grybwyll yn gynt, ac mae'n debyg y byddaf yn dychwelyd at hynny. Ms Lloyd yw'r unigolyn gorau i ateb y cwestiwn hwn fwy na thebyg. A oedd yr amgylchiadau a oedd yn gwneud adfachu yn afrealistig yn yr achos gwaredu hwn yn anarferol neu a ydynt yn berthnasol i eiddo arall?

Mr Jones: It is always a question of judgment as to whether you apply clawback. In most cases, we would apply clawback. Here, we had a large, listed, difficult building, which we had already decided could not be sold without some of the cherries that existed on the site, that is, some of the houses that have since been sold off. There was clear planning guidance as to what was to be allowed on the site. Taking all that into account, it was felt that we would put too many people off if we were also going to claim any gains that they could possibly make on the planning side.

Mr Jones: Mae bob amser yn gwestiwn o farn a ddylid gweithredu'r broses adfachu ai peidio. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddem yn gwneud hynny. Yma, yr oedd gennym adeilad mawr, rhestredig, anodd, y penderfynwyd eisoes na ellid ei werthu heb rai o'r atyniadau ychwanegol ar y safle, hynny yw, rhai o'r tai sydd wedi'u gwerthu ers hynny. Yr oedd cyfarwyddyd clir ar yr hyn a ganiateid ar y safle. O ystyried hynny, teimlwyd y byddai gormod o bobl yn cael eu llesteirio pe baem yn hawlio hefyd y gallent efallai wneud enillion ar yr ochr gynllunio.

The fact that it was not recorded is mystifying to me because I am aware that it was discussed between the health authority and the agent and, indeed, they also specifically asked for my opinion. I came in especially to give that opinion to them at a meeting. In fact, it was also the very last thing that I can remember discussing before the property went on the market. So, again, there is no excuse for it being absent from the files. However, it was a point that was discussed in detail and it is an arguable point.

Mae'r ffaith na chafodd ei gofnodi yn ddirgelwch i mi gan fy mod yn ymwybodol fod y mater wedi'i drafod gan yr awdurdod iechyd a'r gwerthwr ac, yn wir, fe ofynnwyd i mi, yn benodol, am fy marn. Mynychais gyfarfod i gyflwyno fy marn yn benodol iddynt. A dweud y gwir, dyna'r peth olaf yr wyf yn cofio ei drafod cyn i'r eddo fynd ar y farchnad. Felly, eto, nid oes esgus dros ei absenoldeb o'r ffeiliau. Fodd bynnag, yr oedd yn bwynt a drafodwyd yn fanwl ac mae'n bwynt dadleuol.

[140] **Val Lloyd:** I stand to be corrected,

[140] **Val Lloyd:** Cwmpaf ar fy mai,

Chair, because we have had a lot of papers on this matter, but I would like to take up this point. From my memory, there was not a listed building there. The buildings were not listed.

Mr Jones: Did I say 'listed'? I am sorry. I beg your pardon.

[141] **Val Lloyd:** Yes, as one of the reasons for not having clawback.

Mr Jones: I beg your pardon. It was not a listed building. It was a building in a conservation area.

[142] **Val Lloyd:** I would like to take issue with two other matters. Originally, clawback was part of the proposal, particularly for bidder A. When the planning changes came about, I would have thought that that might have been a time to reconsider whether clawback was of value here.

Mr Jones: I think it was reconsidered at that point.

[143] **Dafydd Wigley:** But we have no record of it?

Mr Jones: Apparently not.

[144] **Jocelyn Davies:** So it is from memory that you recollect that, or do you have notes from that meeting?

Mr Jones: No, I probably do not have notes from that meeting.

[145] **Jocelyn Davies:** So, it is from memory then.

Mr Jones: Yes, from memory.

[146] **Eleanor Burnham:** I think that Val has already covered my question, but I will ask the question, and, if it has been covered, I am sure that Mr Jones will tell me. Were the circumstances that made clawback unrealistic for the Mid Wales Hospital unusual or do they apply to other NHS properties? I think that you probably might have answered that.

Mr Jones: They do apply to others, but, in

Gadeirydd, gan ein bod wedi cael llawer o bapurau ar y mater hwn, ond hoffwn barhau ar y pwynt hwn. O'r hyn yr wyf yn ei gofio, nid oedd adeilad rhestredig yno. Nid oedd yr adeiladau'n rhai rhestredig.

Mr Jones: A ddywedais 'rhestredig'? Mae'n ddrwg gen i. Yr wyf yn ymddiheuro.

[141] **Val Lloyd:** Do, fel un o'r rhesymau dros beidio ag adfachu.

Mr Jones: Yr wyf yn ymddiheuro. Nid oedd yn adeilad rhestredig. Yr oedd yn adeilad mewn ardal gadwraeth.

[142] **Val Lloyd:** Hoffwn drafod dau fater arall. Yn wreiddiol, yr oedd adfachu yn rhan o'r cynnig, yn benodol i gynigydd A. Pan gafwyd y newidiadau i'r trefniadau cynllunio, fe fyddwn wedi meddwl mai dyna'r amser i ailystyried a oedd adfachu o werth yma.

Mr Jones: Yr wyf yn meddwl iddo gael ei ailystyried bryd hynny.

[143] **Dafydd Wigley:** Ond nid oes gennym gofnod ohono?

Mr Jones: Mae'n ymddangos felly.

[144] **Jocelyn Davies:** Felly ydych chi'n cofio hynny o'ch cof, neu a oes gennych nodiadau o'r cyfarfod hwnnw?

Mr Jones: Na, mae'n debyg nad oes gennyf nodiadau o'r cyfarfod hwnnw.

[145] **Jocelyn Davies:** Felly, mae'r cyfan yn dod o'ch cof.

Mr Jones: Ydy, o' nghof.

[146] **Eleanor Burnham:** Credaf fod Val wedi gofyn fy nghwestiwn eisoes, ond gofynnaf y cwestiwn, ac, os yw'r mater wedi cael sylw, yr wyf yn siŵr y dywed Mr Jones wrthyf. A oedd yr amgylchiadau a oedd yn gwneud adfachu yn afrealistig i Ysbyty Canolbarth Cymru yn anarferol neu a ydynt yn berthnasol i eiddo arall y GIG? Credaf eich bod siŵr o fod wedi ateb hynny.

Mr Jones: Maent yn berthnasol i eraill, ond,

the majority of cases—we always seek to put in clawback. The decision is not to put it in, if you know what I mean.

[147] **Eleanor Burnham:** It concerns me that there are so many gaps and that no records were kept on these circumstances. It is really very concerning.

My last question is, in order to demonstrate propriety, would you not expect full consideration of clawback to be the rule, even for hospitals in rural areas such as this one?

Mr Jones: Absolutely.

[148] **Dafydd Wigley:** We have heard several times this afternoon that decisions, which, at the time, seemed reasonable and obvious, were not fully recorded. In the light of the serious allegations that have been made about the propriety of the disposal, can you tell us your thoughts on the importance of full recording? Can you also tell us of any new steps that you are taking, or might consider taking in the light of this consideration today, or of any other lessons that you have learnt about this episode from the work of the Auditor General and his team, and, in particular, your intentions to take on board all 12 of the recommendations made by the National Audit Office, plus some others that may arise from this afternoon's deliberations?

Ms Lloyd: The recording of decisions taken is absolutely vital, as is the reporting of why the decisions are taken in the light of public transparency. We have deliberately held back the publication of the Welsh health circular pending the outcome of the Auditor General's report, so that we could properly encompass all his recommendations within that guidance, and clearly set out draft or model procedures for organisations to follow, in the case of the disposal of any of their assets for the future. So this has been particularly helpful to us in moulding that guidance, and I think that this represents a salutary experience for any health organisation, or any public organisation, aiming to dispose of its assets for the future to make absolutely sure that it is clearly documented why they are taking the

yn y mwyafrif o achosion—ceisiwn adfachu bob tro. Y penderfyniad yw peidio â'i weithredu, os ydych yn deall.

[147] **Eleanor Burnham:** Mae'n destun pryder i mi bod cymaint o fylchau ac na chadwyd cofnodion ar yr amgylchiadau hyn. Mae hyn yn destun pryder mawr.

Fy nghwestiwn olaf yw, er mwyn gweithredu'n briodol, oni fydddech yn disgwyl bod adfachu yn cael ei ystyried yn llawn, hyd yn oed mewn ysbytai mewn ardaloedd gwledig fel yr ysbyty hwn?

Mr Jones: Yn hollol.

[148] **Dafydd Wigley:** Yr ydym wedi clywed sawl gwaith y prynhawn yma na chofnodwyd penderfyniadau, a oedd, ar y pryd, yn ymddangos yn rhesymol ac amlwg. Yn sgîl y cyhuddiadau difrifol a wnaed am briodoldeb y gwaredu, a allwch chi roi eich sylwadau i ni ar bwysigrwydd cofnodi llawn? Allwch chi ddweud wrthym hefyd am unrhyw gamau newydd yr ydych yn eu cymryd, neu yn ystyried eu cymryd yn sgîl y drafodaeth hon heddiw, neu am unrhyw wersi eraill yr ydych wedi'u dysgu am hyn o waith yr Archwilydd Cyffredinol a'i dîm, ac, yn arbennig, eich bwriadau i ystyried pob un o 12 argymhelliad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ynghyd â rhai eraill a allai godi o drafodaethau'r prynhawn?

Ms Lloyd: Mae cofnodi penderfyniadau a wnaed yn hollol hanfodol, fel y mae adrodd pam fod penderfyniadau'n cael eu gwneud fel eu bod yn eglur i'r cyhoedd. Yr ydym wedi oedi cyn cyhoeddi cylchlythyr iechyd Cymru yn fwriadol tra'n aros am ganlyniad adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, fel y gallwn gwmpasu ei holl argymhellion yn briodol yn y cyfarwyddyd hwnnw, a gosod gweithdrefnau drafft neu fodel clir i sefydliadau eu dilyn, ynglŷn â gwaredu unrhyw rai o'u hasedau yn y dyfodol. Felly mae hyn wedi bod yn ddefnyddiol iawn i ni o ran llunio'r cyfarwyddyd hwnnw, a chredaf fod hyn yn brofiad llesol i unrhyw sefydliad iechyd, neu sefydliad cyhoeddus, sy'n ceisio gwaredu ei asedau yn y dyfodol i wneud yn hollol sicr fod y rhesymau dros eu penderfyniadau wedi'u dogfennu'n glir.

decisions. They do really have to prove that they have obtained best value for their property and that they satisfy now the Welsh Assembly Government's requirements on sustainable development as well.

[149] **Dafydd Wigley:** I am grateful. I conclude this agenda item by observing that this report has confirmed a significant number of weaknesses in the system that existed at that time, which justifies the considerable amount of work that has been put into this report, and also the fact that members of the public brought it to our attention, for which I thank them. There are, inevitably, some aspects of the allegations that were made which it has not been possible for the National Audit Office to substantiate. It is always difficult to prove a negative, or indeed to impugn motivation, but there may well be some aspects that have arisen from this afternoon's inquiry that Sir John Bourn and his team will want to revisit—as he has every right to do if he believes that there are matters that need to be followed up further. Also, some matters fell outside the jurisdiction of the Auditor General and some of these, I know, are being followed up through other channels, such as the ombudsman.

May I make it clear that Audit Committee hearings are not a court of law? What we consider are systematic weaknesses and what steps can be taken to improve systems so that we do not have to relive mistakes that have been made in the past. In that context, this inquiry has been valuable, and this Committee will formulate its report on the basis of what has been said today as well as the report prepared by the Auditor General.

Hoffwn, felly, ddiolch i'r tystion am eu hymatebion llawn ac adeiladol i'r cwestiynau. Bydd trawsgrifiad drafft yn cael ei baratoi fel y gellir cadarnhau cywirdeb ffeithiol, ac fe'i hanfonir atoch cyn ei gyhoeddi fel rhan o'r cofnodion. Pan gyhoeddir adroddiad y Pwyllgor, cynhwysir y trawsysgrif fel atodiad.

Mae'n rhaid iddynt brofi eu bod yn awr wedi sicrhau'r gwerth gorau am eu heiddo a'u bod yn bodloni gofynion datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd.

[149] **Dafydd Wigley:** Yr wyf yn ddiolchgar. Clof yr eitem hon ar yr agenda drwy sylwi bod yr adroddiad hwn wedi cadarnhau nifer sylweddol o wendidau yn y system a oedd yn bodoli ar y pryd, sy'n cyfiawnhau'r gwaith helaeth a wnaed mewn perthynas â'r adroddiad hwn, a'r ffaith fod aelodau'r cyhoedd wedi dod â'r mater i'n sylw, a diolchaf iddynt am hynny. Yn anochel, mae rhai agweddau ar y cyhuddiadau a wnaed nad oedd modd i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol eu profi. Mae bob amser yn anodd profi cymhelliad negyddol, neu i amau cymhelliad, ond efallai y bydd Syr John Bourn a'i dîm am ailedrych ar rai agweddau sydd wedi codi yn sgîl ymchwiliad y prynhawn yma—mae ganddo bob hawl i wneud hynny os yw'n credu bod materion sydd angen eu trafod ymhellach. Hefyd, yr oedd rhai materion nad oeddynt yn dod o fewn awdurdod yr Archwilydd Cyffredinol, ac mae rhai o'r rhain, yr wyf yn gwybod, yn cael eu dilyn drwy sianeli eraill, megis yr ombwdsman.

A gaf i nodi'n glir nad yw gwrandawiadau'r Pwyllgor Archwilio yn llys barn. Yr hyn yr ydym yn ei ystyried yw gwendidau systematig a pha gamau y gellir eu cymryd i wella systemau fel nad oes yn rhaid i ni ail-fyw camgymeriadau'r gorffennol. Yn y cyddestun hwnnw, mae'r ymchwiliad hwn wedi bod yn werthfawr, a bydd y Pwyllgor hwn yn llunio ei adroddiad ar sail yr hyn a ddywedwyd yma heddiw yn ogystal ag ar sail adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol.

I would therefore like to thank the witnesses for their full and constructive responses to the questions. A draft transcript will be prepared in order to ensure factual accuracy, and will be sent to you before it is published as part of the minutes. When the Committee's report is published, the transcript will be appended.

*Daeth y sesiwn cymryd tystiolaeth i ben am 3.16 p.m.
The evidence-taking session ended at 3.16 p.m.*

